Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

## Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2

Mehefin 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

## Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2

Mehefin 2025

**Awdur:**
Christian Tipples

Mae'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ar hyn o bryd yng Nghyfnod 3 o broses ddeddfwriaethol y Senedd.

Mae'r papur briffio hwn yn esbonio sut y cafodd y Bil ei ddiwygio yng Nghyfnod 2. Dylid ei ddarllen ar y cyd â **thrawsgrifiadau** a **dogfennau** trafodion perthnasol y Senedd, yn ogystal â'r **Crynodeb o'r Bil** a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025.

# Cynnwys

**1. Beth sydd wedi digwydd i'r Bil hyd yma? .................................. 1**

**2. Beth yw nod y Bil? ........................................................................ 2**

**3. Sut y cafodd y Bil ei ddiwygio yng Nghyfnod 2? ........................ 3**

Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr .............................................. 3

Amrywiol .............................................................................................. 6

Cyfraddau'r ardoll ac esemptiadau ...................................................... 7

Y tâl ychwanegol (premiwm) ................................................................ 7

Ad-daliadau .......................................................................................... 8

Ffurflenni .............................................................................................. 8

Fforwm partneriaeth ardoll .................................................................. 8

**4. Beth sy'n digwydd nesaf? ............................................................ 9**

# 1. Beth sydd wedi digwydd i'r Bil hyd yma?

Cyflwynwyd y **Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)** i'r Senedd ym mis Tachwedd 2024.

Craffwyd ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid, a **gyhoeddodd ei adroddiad Cyfnod 1** ym mis Mawrth 2025. Gwnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad **hefyd gyflwyno adroddiad** ar y Bil yng Nghyfnod 1.

Gwnaeth Ymchwil y Senedd **gyhoeddi erthygl** cyn dadl Cyfnod 1 y Senedd ar 1 Ebrill. Gwnaeth y Senedd **bleidleisio o blaid** yr egwyddorion cyffredinol a symudodd y Bil ymlaen i Gyfnod 2.

Cafodd gwelliannau i'r Bil **eu trafod yng Nghyfnod 2** yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 15 Mai 2025. Cafodd 159 o welliannau **eu trafod** a derbyniwyd 98 ohonynt.

Cyhoeddodd y Senedd **fersiwn wedi'i diweddaru o'r Bil** fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 a **newidiadau argraffu i'r Bil.**

# 2. Beth yw nod y Bil?

Bwriedir i'r Bil roi pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru i godi ardoll ar ymwelwyr dros nos sy'n aros mewn llety ymwelwyr yn eu hardal. Bydd yr ardoll **yn ddisgresiynol ei natur,** gan mai mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu a ddylid ei chyflwyno, ar ôl ymgynghori â'u cymunedau a busnesau lleol.

Byddai'r ardoll yn **dâl fesul person, fesul noson,** a fydd yn cael ei godi ar bawb sy'n talu i aros mewn llety dros nos, ac y **byddai cap** o 31 o nosweithiau arno, ac eithrio arosiadau dros nos penodol, lle nad yw'r ardoll yn daladwy neu'n destun ad-daliad.

Byddai'r ardoll **yn cael ei chodi** ar y gyfradd is o 75c i bobl sy'n gwersylla neu'n aros mewn hostel neu ystafell aml-wely a'r gyfradd uwch o £1.30 ar gyfer pob llety ymwelwyr arall. Byddai'n cael ei **chasglu a'i rheoli** gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Mae'r Bil yn **nodi** lle y gellir dyrannu refeniw o'r ardoll, sy'n cynnwys:

- lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;
- cynnal a hybu'r defnydd o'r Gymraeg;
- hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio; a
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr.

Nod arall y Bil yw sefydlu **cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr** sy'n gweithredu yng Nghymru. Byddai'n ofynnol i ddarparwyr gofrestru, ni waeth a yw'r ardal awdurdod lleol y maent yn gweithredu ynddi wedi gweithredu'r ardoll ai peidio. Nod y Bil yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyhoeddi gwybodaeth o'r gofrestr.

Gwnaethom gyhoeddi **crynodeb o'r Bil** ym mis Ionawr 2025 i helpu i graffu arno ac **erthygl** cyn y ddadl 'Cyfnod 1' ar egwyddorion cyffredinol y Bil ym mis Mawrth 2025.

# 3. Sut y cafodd y Bil ei ddiwygio yng Nghyfnod 2?

Cyflwynwyd 159 o welliannau yn ystod trafodion Cyfnod 2. **Derbyniwyd 98 o welliannau** yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac roedd 88 o'r rhain yn welliannau gan Lywodraeth Cymru, a gynigiwyd gan Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ("yr Ysgrifennydd Cabinet"), a chynigiwyd 10 gan Sam Rowlands AS, y Ceidwadwyr Cymreig.

Mae manylion sy'n ymwneud â gwelliannau Cyfnod 2 **ar gael** yn nhrawsgrifiadau a dogfennau'r Pwyllgor, gan gynnwys y **Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli** a'r ddogfen **Grwpio Gwelliannau. Gwnaeth** Llywodraeth Cymru **gyhoeddi hefyd** dablau 'diben ac effaith' o'i gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod 2.

## Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

Mae gwelliant 53 yn **darparu eglurder** y bydd ACC yn gyfrifol am y system gofrestru. **Dywedodd** yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Llywodraeth wedi dewis ACC oherwydd ei arbenigedd o ran dylunio a darparu gwasanaethau sydd â'r defnyddwyr wrth wraidd y broses honno.

Mae gwelliant 62 yn **mewnosod** adran 4 newydd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC sefydlu a chynnal y system gofrestru. Mae'n nodi'r hyn y mae rhaid i ACC ei gyhoeddi, a'r hyn y caiff ac na chaiff ei gyhoeddi, o'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

**Nododd** yr Ysgrifennydd Cabinet mai bwriad y Llywodraeth yw y bydd y gofrestr yn ddogfen gyhoeddus ac y bydd yn darparu llawer iawn o wybodaeth i'r cyhoedd.

Mae gwelliant 141 yn **mewnosod Atodlen newydd** sy'n nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

Mae gwelliannau 63 a 64 yn **welliannau canlyniadol** i welliant 62, ac mae gwelliannau 65, 66 a 67 yn newid y cyfeiriad at 'ddarparwr llety ymwelwyr' i 'berson', er mwyn sicrhau effaith gywir y ddeddfwriaeth. Mae gwelliant 68 yn **newid y cyfeiriad** at 'ddarparwr llety ymwelwyr yn darparu' i 'berson yn darparu' am yr un rheswm.

Mae gwelliant 69 yn **culhau gallu** rheoliadau i ddiwygio Rhan 2 o'r Bil (yr agweddau cofrestru). Mae gwelliant 70 yn **sicrhau na ddylai person** sydd wedi'i esemptio

rhag y gofyniad i gofrestru fod yn destun cosbau am fethu â chofrestru neu gael ei gofrestru'n unochrog gan ACC.

Mae gwelliant 71 yn **cadarnhau sut y mae rhaid i gais** cofrestru gael ei wneud a pha wybodaeth y mae rhaid i gais ei chynnwys.

Mae gwelliant 72 yn **nodi'r cosbau** am fethu â chofrestru.

Mae gwelliant 73 yn **darparu i ACC** bwerau cymesur i gofrestru person pan na fo cais wedi'i wneud.

Mae gwelliant 74 yn **nodi'r dyletswyddau** ar ddarparwyr llety ymwelwyr i gofrestru a chadw eu cofrestriad yn gyfredol.

Mae gwelliant 75 yn **nodi'r cosbau** y bydd darparwr llety ymwelwyr yn agored iddynt os ydynt yn methu â chymryd y camau gofynnol i gynnal cywirdeb eu cofnod cofrestru.

Mae gwelliant 76 yn **darparu pwerau i ACC** i ddiwygio cofnod darparwr llety ymwelwyr ar y gofrestr pan nad yw hysbysiad wedi'i ddarparu iddo.

Mae gwelliant 77 **yn darparu pwerau i ACC** i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodol ddarparu i ACC wybodaeth sy'n berthnasol i arfer swyddogaethau cofrestru'r awdurdod.

Mae gwelliant 78 yn **darparu ar gyfer y** patrwm safonol ar gyfer cosbau i'r rhai sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth a ddyroddir gan ACC.

Mae gwelliant 79 yn **nodi'r dyletswyddau** ar ddarparwyr llety ymwelwyr i ddileu eu hunain o'r gofrestr os nad ydynt yn gweithredu mwyach, ac mae'n nodi'r hyn y mae rhaid i ACC ei wneud pan fydd yn cael cais dilys i ddileu person o'r gofrestr.

Mae gwelliant 80 yn **nodi y bydd person** yn destun cosbau os bydd yn methu â gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr pan fydd angen.

Mae gwelliant 81 yn **darparu pwerau i ACC** i ddileu person o'r gofrestr pan fydd ACC yn ystyried nad yw person yn ddarparwr llety ymwelwyr mwyach.

Mae gwelliant 82 yn **darparu na fydd person** yn agored i'r gosb berthnasol os bydd yn bodloni ACC neu'r tribiwnlys haen gyntaf bod ganddo esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio â gofynion.

Mae gwelliant 83 yn **darparu y caiff ACC** ostwng y gosb os yw amgylchiadau arbennig yn cyfiawnhau'r gostyngiad hwnnw, ond nid yw'r anallu i dalu yn cyfrif fel amgylchiadau arbennig.

Mae gwelliant 84 yn **gosod dyletswydd ar ACC** i asesu cosbau a dyroddi hysbysiadau cosb o fewn amserlenni penodol.

Mae gwelliannau 85, 86 a 87 yn ddarpariaethau safonol, sy'n **darparu cysondeb** o ran systemau cosbi presennol y mae ACC yn eu gweithredu.

Mae gwelliant 88 yn **diwygio** Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i ddarparu ar gyfer system o adolygiadau ac apelau o benderfyniadau ACC a wneir yng nghwrs ei swyddogaethau cofrestru.

Mae gwelliant 89 yn **diffinio rhai o'r termau** a ddefnyddir yn Rhan 2 o'r Bil.

Mae gwelliant 90 yn **cynnwys pwerau** i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol mewn perthynas â chofrestru.

Mae gwelliant 91 yn **cyflwyno Rhan newydd 1** o Atodlen 2 i'r Bil. Mae Rhan 1 yn ymdrin â diwygiadau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Deddf 2016) sy'n ymwneud â chofrestru. Mae Rhan 2 o Atodlen 2 yn ymdrin â diwygiadau i Ddeddf 2016 sy'n ymwneud â'r ardoll.

Mae gwelliant 111 yn **ymwneud â rhannu** Atodlen 1 i'r Bil yn ddwy Ran.

Mae gwelliant 142 yn **mewnosod Rhan newydd 1** sy'n diwygio Deddf 2016, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae'n caniatáu rhannu gwybodaeth o'r gofrestr gyda phrif gynghorau a Gweinidogion Cymru.

Mae gwelliannau 118 i 127 yn **cymhwyso'r darpariaethau** ar achosion arbennig i'r gofrestr. Mae'r achosion arbennig hyn yn faterion fel gwerthu neu drosglwyddo busnes, marwolaeth neu analluedd.

Mae gwelliant 129 yn **gwneud y pŵer** i wneud darpariaeth bellach am y system gofrestru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Amrywiol

Mae gwelliant 115 yn **darparu ffenestr chwe mis** o'r adeg y mae cyngor yn cyhoeddi ei benderfyniad i gyflwyno ardoll ymwelwyr cyn i archebion ymlaen llaw ddod yn ardolladwy.

Mae gwelliant 116 yn **sicrhau na ellir manteisio'n annheg ar y ffenestr chwe mis,** na'u newid, i osgoi atebolrwydd am ardoll.

Mae gwelliant 96 yn **newid yr adeg drethu** fel ei bod wrth gyrraedd yn lle wrth ymadael.

Mae gwelliannau 134 a 135 yn **darparu y bydd rheoliadau** a wneir o dan adrannau 17(3) a 24(4) o'r Bil, yn y drefn honno, yn ddarostyngedig i'r broses graffu gadarnhaol ddrafft. Mae hyn yn ymateb yn uniongyrchol i **argymhelliad 10** a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Mae gwelliannau 55, 56, 57 a 59 yn **rhoi cyfeiriad** at 'gynnig' a 'cynigir' yn lle 'roi ar gael' a 'rhoddir ar gael'. Bwriad hyn yw cynyddu cysondeb o ran sut mae'r Bil yn cyfeirio at y weithred o gynnig llety ymwelwyr.

Mae gwelliant 61 yn **gwneud darpariaeth ynghylch** y mathau o gamau gweithredu sy'n gyfystyr â chynnig llety.

Mae gwelliant 58 yn **welliant egluro** i sicrhau nad yw llain neu ardal ar gyfer cartref symudol preswyl yn cael ei chynnwys yn y gofynion cofrestru oherwydd bod y rhain yn fannau lle y mae pobl yn byw.

Mae gwelliant 54 yn **dileu'r geiriau** 'safle gwersylla' a 'safle carafannau' o adran 2 er mwyn sicrhau nad yw llety, fel safleoedd carafannau preswyl, yn cael eu cynnwys yn anfwriadol yn y ddeddfwriaeth.

Mae gwelliant 60 yn **welliant egluro,** sy'n sicrhau bod hyd a lled y pŵer yn adran 2 o'r Bil, sy'n diffinio llety ymwelwyr, yn glir.

Mae gwelliant 92 yn **sicrhau nad yw arhosiad** mewn llety ymwelwyr y tu allan i Gymru yn gyfystyr ag arhosiad dros nos mewn 'llety ymwelwyr' at ddibenion y Bil hwn.

Mae gwelliant 94 yn **diwygio adran 9(2)(b)(ii)** o'r Bil i adlewyrchu'r ffaith nad yw llety a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn 'llety ymwelwyr'.

Mae gwelliant 114 yn **rhoi cyfeiriadau at** '*hwyluso*' yn lle '*hyrwyddo*' yn y fersiwn Gymraeg er mwyn sicrhau cysondeb drwy gydol y Bil.

Mae gwelliannau 117, 128, 130, 133, 134, 137, 139 a 140 yn **dechnegol eu natur** ac yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael yr effaith a fwriedir.

Mae gwelliant 138 yn **egluro y bydd** Rhan 2 o Atodlen 1 yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

## Cyfraddau'r ardoll ac esemptiadau

Mae gwelliant 100 yn **dileu'r cysyniad** o'r gyfradd o ddim ac mae gwelliannau 102 i 105 yn ganlyniadol i'r gwelliant hwnnw.

Mae gwelliant 93 yn **ychwanegu arosiadau mewn llety ymwelwyr** sydd wedi'u trefnu gan brif gyngor sy'n gweithredu fel awdurdod tai lleol o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, neu a ddarperir ar ran prif gyngor o'r fath, at y rhestr o arosiadau sydd wedi'u hesemptio o dan adran 9(2)(b). Mae hyn o ganlyniad i welliant 100.

Mae gwelliant 131 yn **darparu bod** y pŵer gwneud rheoliadau, fel y'i mewnosodir gan welliant 95, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Yn yr un modd, mae gwelliant 132 yn **darparu bod** y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 11(6), a fewnosodir gan welliant 97, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae gwelliant 97 yn **eithrio personau o dan 18 oed** o gyfradd is yr ardoll. Mae gwelliant 97 hefyd yn mewnosod pŵer gwneud rheoliadau **sy'n darparu hyblygrwydd ychwanegol** yn y dyfodol i ddileu grwpiau eraill o'r ardoll, gan ganiatáu i Lywodraeth Cymru ymateb i unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

Mae gwelliant 99 yn **cynyddu** cyfradd uwch yr ardoll 5c i £1.30 fesul person, fesul noson.

## Y tâl ychwanegol (premiwm)

Mae gwelliant 113 yn **golygu y bydd prif gyngor** sy'n dymuno ychwanegu swm ychwanegol at gyfraddau'r ardoll yn gallu cymryd camau i wneud hynny 12 mis ar ôl i'r ardoll gychwynnol ddod yn effeithiol yn yr ardal honno.

Mae gwelliant 106 yn **rhoi pŵer newydd i wneud rheoliadau yn lle adran 14 o'r Bil,** gan alluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu i brif gynghorau ychwanegu swm

ychwanegol at yr ardoll.

Mae gwelliant 101 yn **welliant egluro** sy'n ymwneud â gwelliant 106 ac yn sicrhau cysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir yn y Bil.

Mae gwelliant 112 yn **ganlyniadol i'r newidiadau** o dan welliant 106.

Mae gwelliant 39 (a gyflwynwyd gan Sam Rowlands AS) yn **dileu 'premiwm'** o'r diffiniadau a'r deongliadau ar gyfer termau yn y Bil.

## Ad-daliadau

Mae gwelliant 107 yn **estyn y cyfnod** ar gyfer hawlio ad-daliad i ofalwyr i dri mis ar ôl diwedd arhosiad, ac mae'n egluro bod ad-daliadau ar gyfer y person sy'n darparu gofal, cynhorthwy neu gymorth.

Mae gwelliant 108 yn **welliant canlyniadol,** sy'n sicrhau bod is-adran 15(5) yn cynnwys y cyfeiriad cywir.

Mae gwelliant 109 yn **welliant egluro**, sy'n adlewyrchu'r newidiadau a wneir o dan welliant 107.

## Ffurflenni

Mae gwelliant 110 yn **rhoi** '30 o ddiwrnodau' yn lle 'un mis'.

## Fforwm partneriaeth ardoll

Mae gwelliannau 150 i 158 (a gyflwynwyd gan Sam Rowlands AS) yn **ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor**, sydd wedi cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn ei ardal, sefydlu fforwm partneriaeth ardoll o fewn tri mis ar ôl i'r ardoll ddod yn effeithiol. Dylai cyfarfodydd y fforwm gael eu cynnal o leiaf unwaith bob blwyddyn ariannol.

Un o swyddogaethau pwysig y fforwm fydd cynghori ar sut mae refeniw o'r ardoll yn cael ei wario i gefnogi'r gymuned leol. Mae'r gwelliannau yn ei **gwneud yn ofynnol i brif gyngor** gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y fforwm yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector twristiaeth a llety ymwelwyr yn yr ardal.

# 4. Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r Bil **ar hyn o bryd yng Nghyfnod 3** a bydd yn destun gwelliannau gan bob Aelod o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn. Bydd hyn yn **digwydd ddydd Mawrth 1 Gorffennaf.**

Bydd y Bil wedyn yn destun pleidlais yng Nghyfnod 4 i benderfynu a ddylai'r Senedd basio'r ddeddfwriaeth, a fydd yn **digwydd ddydd Mawrth 8 Gorffennaf.**

Pe bai'n cael ei basio, byddai'r Bil yn gofyn am Gydsyniad Brenhinol gan y Brenin cyn cael ei ddeddfu a byddai ei ddarpariaethau yn cychwyn fel y nodir yn y Bil/y Ddeddf.